



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Cyllideb Atodol 2026-2027

Nodyn Esboniadol

Hydref 2026



Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Dyraniadau Allweddol	4
3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2026-27	8
4. Cronfeydd wrth gefn	18
5. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	25
6. Ailddatgan Cyllideb Derfynol 2026-27	27
Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb	33
Atodiad 2 – Geirfa	35

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â:
cymorth@llyw.cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1** Heddiw, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2026-27, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn ailddatgan y dyraniadau a gynhwyswyd yn flaenorol yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar 23 Mehefin, na chawsant eu cymeradwyo gan y Senedd. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys dyraniad ychwanegol hefyd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, o ganlyniad i'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llafur Cymru.
- 1.2** Mae hon yn gyllideb ddarbodus ac uchelgeisiol o hyd sy'n canolbwyntio ar ein blaenoriaethau o dorri rhestrau aros, mynd ati i gyflwyno'r cynnig gofal plant mwyaf hael unrhyw le yn y DU ac ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd mewn aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Mae'n gwneud cynnydd hefyd o ran rhoi'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar sylfaen gynaliadwy, gan ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi ysgolion a dysgwyr eleni.
- 1.3** Yn unol â'n hymrwymiad i sicrhau bod y llywodraeth yn gweithio'n fwy effeithiol i bawb y mae'n eu gwasanaethu, rydym yn gwneud rhai buddsoddiadau allweddol mewn cyfalaf i wella ein gwasanaethau cyhoeddus.
- 1.4** Fel y'i cyflwynwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf, mae'r gyllideb atodol hon hefyd yn cyflwyno ailddatganiad o Gyllideb Derfynol 2026-27 yn unol â'r portffolios Gweinidogol newydd, yn ailddosbarthu cyllidebau adnoddau anghyllidol wedi'u clustnodi blaenorol i Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME), yn rheoleiddio nifer o drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU ac yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.
- 1.5** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.

1.6 Mae'r ddogfen hon yn ategu'r tablau manwl, 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)', sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Dyraniadau Allweddol

Cyflwyniad

2.1 Er gwaethaf etifeddu amgylchedd ariannol heriol, mae'r gyllideb atodol hon yn gam cyntaf tuag at gysoni ein hadnoddau â'n blaenoriaethau newydd, gan ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus yr un pryd. Bydd y dyraniadau a wneir yn cael effeithiau diriaethol, gan wella amseroedd aros ysbytai a lleddfu pwysau costau byw i deuluoedd ac aelwydydd.

Y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal

2.2 Mae swm ychwanegol o £145m yn cael ei fuddsoddi yn GIG Cymru drwy'r gyllideb atodol hon. Mae hyn yn cynnwys £100m o gyllid adnoddau i ddechrau rhoi ein cynllun i leihau rhestrau aros ar waith. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi rhaglen wedi'i thargedu o weithgarwch gofal wedi'i gynllunio yn 2026-27, sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y triniaethau a lleihau maint cyffredinol rhestrau aros. Bydd hyn yn trawsnewid triniaethau arbenigol, gan greu'r seilwaith i drin mwy o gleifion yn awr ac yn y dyfodol.

2.3 Er mwyn cefnogi ein hymdrech i leihau rhestrau aros, rydym wedi buddsoddi cyfalaf ychwanegol o £25m hefyd i ddechrau darparu hybiau llawfeddygol a diagnostig newydd, a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu niferoedd uchel o driniaethau yn y meysydd arbenigol lle mae cleifion yn aros hiraf.

2.4 Gan adeiladu ymhellach ar y buddsoddiad hwn, mae cyfalaf ychwanegol o £20m wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael ag ôl-groniadau cynnal a chadw ar draws ystad y GIG. Bydd y buddsoddiad hwn yn darparu atgyweiriadau ac uwchraddiadau hanfodol, gan helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn amgylcheddau gofal iechyd diogel, modern a dibynadwy, wrth leihau aflonyddwch ac osgoi costau uwch yn y dyfodol.

Y Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

- 2.5** Rydym wedi buddsoddi £55m i gyflymu'r broses o ehangu gofal plant a ariennir i fwy o blant dwy oed ledled Cymru. Bydd hyn yn helpu i ddarparu 12.5 awr yr wythnos o ofal plant a ariennir i bob plentyn dwy oed. Mae'r dyraniad yn cynnwys dyraniad adnoddau o £45m a dyraniad cyfalaf o £10m drwy'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg. Bydd y buddsoddiad cyfalaf yn helpu i wella ac ehangu lleoliadau gofal plant, gan wella ansawdd, capasiti a hygyrchedd darpariaeth y blynyddoedd cynnar.
- 2.6** Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn caniatáu ar gyfer ehangu miloedd o leoedd gofal plant ychwanegol ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar unwaith ar ehangu gofal plant i blant dwy oed.
- 2.7** Mae'r cyllid yn cynnwys £20m ar gyfer ehangu gofal plant i blant dwy oed a £25m i ateb y galw presennol yn erbyn y Cynnig Gofal Plant gan gynnwys cyllid ar gyfer y newid yn y gyfradd fesul awr ers mis Ebrill 2026. Bydd y cyllid yn hanfodol i gefnogi'r system gofal plant. Bydd yn helpu i reoli galw cynyddol, cryfhau cynaliadwyedd hirdymor darparwyr, a chefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg - gan gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- 2.8** Mae hwn yn gyflwyniad graddol ac mae'n gam sylweddol tuag at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 20 awr o ofal a ariennir yr wythnos i bob plentyn rhwng naw mis a phedair oed, y cynnig gofal plant mwyaf hael yn unrhyw le yn y DU.
- 2.9** Mae dyraniad adnoddau pellach o £2m wedi'i wneud i ddechrau cynllun peilot y taliad plant Cynnal. Bydd y fenter hon yn darparu cymorth wedi'i dargedu i deuluoedd incwm is gan gefnogi plant drwy eu blynyddoedd cynnar a mynd i'r afael â lleihau tlodi.
- 2.10** Yn olaf, mae'r gyllideb hon yn darparu £5m o gyfalaf drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol i wella adeiladau lleol a mannau a rennir. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i sicrhau bod gan gymunedau lleol leoedd

diogel, hygyrch a gynhelir yn dda i gyfarfod, i gael mynediad at wasanaethau ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau lleol.

Y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg

2.11 Mae £15m wedi'i ddyrannu drwy'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i ddechrau galluogi mwy o ddisgyblion uwchradd i gael prydau ysgol am ddim o fis Medi ymlaen. Mae dyraniad adnoddau o £5m a dyraniad cyfalaf o £10m, i fuddsoddi mewn ceginau a mannau bwyta mewn ysgolion, wedi'u gwneud i fynd ati i ymestyn prydau ysgol am ddim i ddisgyblion uwchradd mewn aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol, drwy ddileu'r terfyn incwm. Mae hwn yn bolisi wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion uwchradd ac mae'n canolbwyntio ar ddileu terfynau incwm presennol ac ehangu cymhwysra i gael cymorth.

2.12 Bydd hyn yn adeiladu ar y cynnig presennol cyffredinol o brydau am ddim mewn ysgolion cynradd, yn sicrhau bod mwy o blant yn cael mynediad at brydau maethlon yn yr ysgol ac yn lleihau tlodi plant a phwysau costau byw. Mae swm cyfalaf pellach o £40m wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw cynyddol ar draws yr ystad addysg. Bydd y cyllid yn cefnogi atgyweiriadau a gwaith uwchraddio hanfodol i adeiladau ysgol, gan helpu i sicrhau bod disgyblion a staff yn dysgu ac yn gweithio mewn amgylchedd diogel, cynnes a gynhelir yn dda. Drwy fuddsoddi yn awr, gallwn helpu i atal dirywiad pellach yn yr ystad, lleihau'r angen am ymyriadau mwy costus yn y dyfodol, a chefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu gwasanaethau addysg o ansawdd uchel ledled Cymru.

2.13 O ganlyniad i gytundeb cyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Llafur Cymru, mae £60m wedi'i ddyrannu i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i ddarparu cymorth pellach ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) eleni. Mae'r pecyn yn darparu cyllid uniongyrchol ychwanegol i ysgolion a lleoliadau i sefydlogi'r ddarpariaeth bresennol, yn ogystal â meithrin y sgiliau a'r gallu angenrheidiol ar draws awdurdodau lleol i adeiladu system ADY gynaliadwy. Mae dyraniad adnoddau o £56m wedi'i ddyrannu drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol (LAEG), i'r

Awdurdodau Lleol, a bydd £44.8m (80%) ohono yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion a lleoliadau. Mae dyraniad adnoddau o £2.5m wedi'i wneud ar gyfer lleoliadau Addysg Bellach. Mae dyraniad o £1.5m wedi'i ddyrannu i gefnogi cynllun cynaliadwyedd tymor hir.

Y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

2.14 Mae'r gyllideb atodol hon wedi dyrannu £20m o gyfalaf drwy'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio i gefnogi tai cymdeithasol. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd a gwell, yn lleihau'r pwysau ar restrau aros a llety dros dro, ac yn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at dai diogel.

Y Prif Grŵp Gwariant Menter, Cysylltedd ac Ynni

2.15 Mae'r gyllideb hon yn darparu adnoddau o £8m i barhau â'r cynllun peilot tocynnau bws am £1 i bobl ifanc. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i sicrhau mynediad fforddiadwy at addysg, gwaith a gwasanaethau, wrth leihau costau teithio i deuluoedd a chefnogi mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

2.16 Mae buddsoddiad strategol pellach o £2m o adnoddau wedi'i wneud i gefnogi'r gwasanaeth bysiau o'r Gogledd i'r De. Bydd y gwasanaeth yn cychwyn ddechrau'r hydref. Bydd yn gwella cysylltedd ledled Cymru, gan helpu pobl i gael mynediad at swyddi, addysg a gwasanaethau, ac yn cynnig opsiwn dibynadwy a fforddiadwy o ran trafndiaeth sector cyhoeddus.

Y Prif Grŵp Gwariant Diwylliant a Chwaraeon

2.17 Mae buddsoddiad o £2m o adnoddau wedi'i wneud i gynorthwyo ysgolion â gwersi nofio. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i sicrhau bod mwy o blant yn gallu dysgu nofio a datblygu sgiliau diogelwch dŵr, gan wella iechyd, llesiant a diogelwch wrth gefnogi mynediad at sgil bywyd allweddol.

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2026-27

- 3.1** Mae tablau 3.1 i 3.4 yn nodi effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl Prif Grŵp Gwariant.

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

ELFENNAU CYLLIDO ADNODDAU LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Derfynol 2026-27	Newidiad- au	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYLLIDO ADNODDAU			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	18,496,826	455,182	18,952,008
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) - Anghyllidol	1,237,929	(1,237,929)	-
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) - Cyllidol	35,641	(3,783)	31,858
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) - Anghyllidol	287,626	1,325,924	1,613,550
Cyllid Datganoledig Cymru - Ardrethi Annomestig	1,101,000	-	1,101,000
Cyllid Datganoledig Cymru - Cyfradd Treth Incwm Cymru	3,976,926	-	3,976,926
Cyllid Datganoledig Cymru - Y Dreth Trafodiadau Tir	399,017	-	399,017
Cyllid Datganoledig Cymru - Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	36,563	-	36,563
Cyllid Datganoledig Cymru - Ad-dalu Prifswm Benthycu	(14,898)	-	(14,898)
CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU	25,556,630	539,394	26,096,024

ELFENNAU CYLLIDO CYFALAF LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Derfynol 2026-27	Newidiad- au	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYLLIDO CYFALAF			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) - Cyffredinol	3,441,441	34,265	3,475,706
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) - Trafodiadau Ariannol	131,746	26	131,772
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) - Cyfalaf	1,375,242	42,449	1,417,691
Cyllid Datganoledig Cymru - Benthycu Cyfalaf	165,000	-	165,000
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	-	32,000	32,000
CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF	5,113,429	108,740	5,222,169

CYFANSWM CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Derfynol 2026-27	Newidiad- au	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Cyfanswm Cyllido Adnoddau	25,556,630	539,394	26,096,024
Cyfanswm Cyllido Cyfalaf	5,113,429	108,740	5,222,169
CYFANSWM CYLLIDO	30,670,059	648,134	31,318,193

Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd		
	Cyllideb Derfynol 2026-27 wedi'i hailddatgan	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026
Iechyd a Gofal	13,555,498	207,215	13,762,713
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	8,326,452	20,000	8,346,452
Addysg a'r Gymraeg	3,959,149	129,529	4,088,678
Menter, Cysylltedd ac Ynni	2,084,984	73,088	2,158,072
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	945,008	9,425	954,433
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	473,776	52,000	525,776
Diwylliant a Chwaraeon	243,996	2,000	245,996
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	456,150	(142)	456,008
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	30,045,013	493,115	30,538,128
Comisiwn y Senedd	102,672	-	102,672
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	6,820	-	6,820
Swyddfa Archwilio Cymru	10,477	-	10,477
Y Comisiwn Etholiadol	3,609	-	3,609
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	863	3	866
Adnoddau Heb eu Dyrannu - Adnoddau Cyllidol - DEL	40,177	146,326	186,503
Cyfalaf Heb ei Ddyrannu - Cyfalaf Cyffredinol - DEL	118,026	(117,997)	29
Cyfalaf Heb ei Ddyrannu - Cyfalaf Trafodiadau Ariannol - DEL	3,065	26	3,091
AME heb ei ddyrannu*	-	465,998	465,998
CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU	30,330,722	987,471	31,318,193

* AME untro heb ei ddyrannu sy'n deillio yn bennaf o'r trawsnewidiad RRDEL i AME; ni ddisgwyllir iddo aros mewn cyllidebau dilynol.

Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	ADNODDAU CYLLIDOL		
	Cyllideb Derfynol 2026-27 wedi'i hailddatgan	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026
Iechyd a Gofal	12,293,491	155,715	12,449,206
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	5,885,125	-	5,885,125
Addysg a'r Gymraeg	2,104,581	69,529	2,174,110
Menter, Cysylltedd ac Ynni	867,178	34,389	901,567
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	587,729	362	588,091
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	453,890	47,000	500,890
Diwylliant a Chwaraeon	134,404	2,000	136,404
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	416,361	(142)	416,219
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	22,742,759	308,853	23,051,612

Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	CYFALAF CYFFREDINOL			TRAFODIADAU ARIANNOL		
	Cyllideb Derfynol 2026-27 wedi'i hailddatgan	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026	Cyllideb Derfynol 2026-27 Wedi'i hailddatgan	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026
Iechyd a Gofal	625,750	51,500	677,250	-	-	-
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	1,215,106	20,000	1,235,106	92,508	-	92,508
Addysg a'r Gymraeg	407,097	60,000	467,097	(1,968)	-	(1,968)
Menter, Cysylltedd ac Ynni	839,144	38,699	877,843	28,484	-	28,484
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	293,173	9,063	302,236	10,200	-	10,200
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	18,198	5,000	23,198	457	-	457
Diwylliant a Chwaraeon	65,412	-	65,412	(1,000)	-	(1,000)
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	18,189	-	18,189	-	-	-
Cyfanswm y Dyranïad i MEGs Llywodraeth Cymru	3,482,069	184,262	3,666,331	128,681	-	128,681

3.2 Darperir trosolwg isod o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid ac mae manylion y dyraniadau o gronfeydd wrth gefn i'w gweld ym mhennod 6.

Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

Adnoddau Cyllidol

3.3 Cafwyd cynnydd net o £455.182m i linell sylfaen Adnoddau Cyllidol sy'n cynnwys:

- Cynnydd o ganlyniadau Barnett gwerth cyfanswm o £372.456m (£326.885m o Ddatganiad Gwanwyn y DU 2026 a £45.571m o Brif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU 2026);
- Trosglwyddiadau o £75.674m ag Adrannau'r Llywodraeth;
- Newid o £7.052m o gyfalaf i adnoddau mewn perthynas â Gwariant ar Drwyddedau Meddalwedd.

3.4 Mae manylion y trosglwyddiadau ag Adrannau eraill o'r Llywodraeth wedi'u nodi yn y tabl isod.

Trosglwyddiadau ag adrannau eraill o'r Llywodraeth		
Adran o'r Llywodraeth	Disgrifiad	£000oedd
Cronfeydd wrth Gefn Trysorlys EF	TAW ar leoliad arbenigol ôl-16 - hawliad ôl-weithredol ar gyfer 2024/25 a 2025/26	186
Cronfeydd wrth Gefn Trysorlys EF	TAW ar leoliad arbenigol ôl-16 - hawliad ar gyfer 2026/27	105
Y Swyddfa Gartref	Y Gordal Iechyd Mewnfudo 2026-27	50,242
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cronfa Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) – Asesiad Technoleg Iechyd	797
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cynllun Cymorth Gwaed sydd wedi'i Heintio â HIV - Costau Gweithredol	276
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cyllid Dysgu a Sgiliau'r Parc	3,738
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Dyfarniad cyflog i staff y sector cyhoeddus sy'n darparu dysgu a darpariaeth sgiliau yng ngharchardai De Cymru	500
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Y Prosiect Blaengaredd Anweithgarwch Economaidd	8,000
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	Parthau Buddsoddi	11,589
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	Cartrefi i Wcráin	383
Trysorlys EF	Ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am y gwaith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig	(132)
Swyddfa'r Cabinet	Cyfraniad Llywodraeth Cymru at y Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2026	(10)
Cyfanswm		75,674

Adnoddau Anghyllidol

3.5 Yn effeithiol o Brif Amcangyfrif 2026-27, mae Trysorlys EF wedi aildosbarthu'r DEL adnoddau anghyllidol wedi'i glustnodi (RRDEL) i AME Adnoddau. Bernid bod cynnwys adnoddau anghyllidol yn y gyllideb DEL yn creu anwadalrwydd ac yn gwanhau'r cysylltiad rhwng dyraniadau gwariant ac adnoddau arian parod y mae eu hangen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

3.6 Mae'r newid technegol hwn wedi arwain at ddileu'r gyllideb RRDEL gwerth £1,237.929m a chynnydd cyfatebol i'r gyllideb AME fel rhan o'r gyllideb

atodol gyntaf hon. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw effaith net ar linellau sylfaen.

- 3.7** Mae Tabl 6.1 isod yn nodi'r ailddatganiad o'r Gyllideb Derfynol i adlewyrchu ailddyrannu RRDEL i RAME.

Cyllido Datganoledig Cymru

- 3.8** Nid oes unrhyw newidiadau i'r incwm trethi datganoledig yn y gyllideb atodol hon – mae'r rhagolygon yn parhau i adlewyrchu'r rhai a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol.
- 3.9** Roedd y cynlluniau cyfalaf yng Nghyllideb Derfynol 2026-27 yn rhagdybio benthycu o £165m yn ystod y flwyddyn. Yr un yw'r rhagdybiaeth ar gyfer y gyllideb atodol hon.

Cyfalaf Cyffredinol

- 3.10** Cafwyd cynnydd net o £34.265m i'r llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol yn cynnwys:
- Cynnydd mewn symiau canlyniadol Barnett o £4.364m (£4.281m o Ddatganiad Gwanwyn y DU 2026 a £83k o Brif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU 2026);
 - Trosglwyddiadau o £36.953m ag Adrannau'r Llywodraeth;
 - Newid o £7.052k o gyfalaf i adnoddau mewn perthynas â Gwariant ar Drwyddedau Meddalwedd.

3.11 Mae manylion y trosglwyddiadau ag Adrannau eraill o'r Llywodraeth wedi'u nodi yn y tabl isod.

Trosglwyddiadau ag adrannau eraill o'r Llywodraeth		
Adran o'r Llywodraeth	Disgrifiad	£000oedd
Cronfeydd wrth Gefn Trysorlys EF	Bargen Ddinesig Bae Abertawe	1,000
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cynllun Gwirfoddol ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) - Rhaglen Treialon Clinigol	6,500
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	Parthau Buddsoddi	15,133
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	Porthladdoedd Rhydd	11,020
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	Porthladdoedd Rhydd - Adfer Glannau'r Harbwr (Castell-nedd PT)	3,300
Cyfanswm		36,953

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

3.12 Mae'r llinell sylfaen trafodiadau ariannol wedi cynyddu £0.026m ers Cyllideb Derfynol 2026-27 oherwydd symiau canlyniadol Prif Amcangyfrif 2026-27.

AME

3.13 Mae'r llinell sylfaen AME wedi cynyddu £1,364.590m ers Cyllideb Derfynol 2026-27 sy'n cynnwys y symudiadau canlynol ym Mhrif Amcangyfrifon 2026-27:

- Gostyngiad o £3.783m yn yr AME cyllidol;
- Cynnydd o £1,325.924m yn yr AME anghyllidol sy'n cynnwys ailddosbarthu RRDEL i AME;
- Cynnydd o £42.449m i'r AME cyfalaf.

Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2026-27 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM Y DYRANIAD I'R MEG
	Cyllidol	Anghyllid -ol ¹	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredin- ol	Trafodiad -au Ariannol	Cyfansw- m Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfansw- m AME	
Iechyd a Gofal	12,449,206	-	12,449,206	677,250	-	677,250	635,637	620	636,257	13,762,713
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	5,885,125	-	5,885,125	1,235,106	92,508	1,327,614	1,133,713	-	1,133,713	8,346,452
Addysg a'r Gymraeg	2,174,110	-	2,174,110	467,097	(1,968)	465,129	74,085	1,375,354	1,449,439	4,088,678
Menter, Cysylltedd ac Ynni	901,567	-	901,567	877,843	28,484	906,327	350,178	-	350,178	2,158,072
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	588,091	-	588,091	302,236	10,200	312,436	54,638	(732)	53,906	954,433
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	500,890	-	500,890	23,198	457	23,655	1,231	-	1,231	525,776
Diwylliant a Chwaraeon	136,404	-	136,404	65,412	(1,000)	64,412	45,180	-	45,180	245,996
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	416,219	-	416,219	18,189	-	18,189	21,600	-	21,600	456,008
CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGs	23,051,612	-	23,051,612	3,666,331	128,681	3,795,012	2,316,262	1,375,242	3,691,504	30,538,128

¹ Mae Adnoddau Anghyllidol bellach yn rhan o Adnoddau AME yn dilyn aiddosbarthiad cyllidebol gan Drysorlys EF.

4. Cronfeydd wrth gefn

4.1 Mae'r gyllideb hon yn unioni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt. Mae crynodeb i'w gael yn nhabl 4.1 isod ac mae rhestr lawn yn rhoi manylion yr holl symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gael ar y wefan.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

4.2 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £308.995m wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae hyn yn cynnwys £224m sydd wedi'i ddyrannu tuag at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac £84.995m o Drosglwyddiadau Sicrwydd y Gyllideb (gan gynnwys £9.562m o 2025-26).

4.3 Gwnaed y dyraniadau canlynol i Brif Grwpiau Gwariant:

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru		
BEL	Manylion	£000oedd
Dyraniadau Craidd y GIG	Amseroedd Aros	100,000
Iechyd a Gofal		100,000
Bwyd a Maeth mewn Ysgolion	Cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim mewn Ysgolion Uwchradd	5,000
Diwygio Addysg (LAEG)	Anghenion Dysgu Ychwanegol – Grant Addysg Awdurdodau Lleol (LAEG) i Awdurdodau Lleol	56,000
Gwariant y Rhaglen Medr	Anghenion Dysgu Ychwanegol – ar gyfer lleoliadau Addysg Bellach	2,500
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Anghenion Dysgu Ychwanegol – i gefnogi cynllun cynaliadwyedd hirdymor	1,500
Addysg a'r Gymraeg		65,000
Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau	Teithio Rhatach ar Fysiau i Bobl Ifanc	8,000
Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau	Teithio ar Fysiau o'r Gogledd i'r De	2,000
Menter, Cysylltedd ac Ynni		10,000
Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae	Gofal Plant	20,850
Y Grant Plant a Chymunedau	Gofal Plant (cyllid ar gyfer ehangu gofal plant i blant dwy oed)	24,150
Cynnal	Y Taliad Cynnal	2,000
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb		47,000

Cymorth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon	Nofio i Ysgolion	2,000
Diwylliant a Chwaraeon		2,000
Cyfanswm		224,000

Trosglwyddiadau Sicrwydd y Gyllideb		
BEL	Manylion	£000oedd
Dyraniadau Craidd y GIG	Y Gordal Iechyd Mewnfudo 2026/27	50,242
Dyraniadau Craidd y GIG	Cronfa Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) – Asesiad Technoleg Iechyd	797
Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG	Cynllun Cymorth Gwaed sydd wedi'i Heintio â HIV - Costau Gweithredol	276
Gwella Iechyd a Gweithio Iach	Ardoll Gamblo (wedi'i chario ymlaen o 2025-26)	4,000
Iechyd Meddwl	Lleoliad a Chymorth i Unigolion (wedi'i gario ymlaen o 2025-26)	400
Iechyd a Gofal		55,715
Dysgu i Droseddwyr	Cyllid Dysgu a Sgiliau'r Parc	3,738
Dysgu i Droseddwyr	Dyfarniad cyflog i staff y sector cyhoeddus sy'n darparu dysgu a darpariaeth sgiliau yng ngharchardai De Cymru	500
Lleoliadau Arbenigol Ôl-16	TAW ar leoliad arbenigol ôl-16	291
Addysg a'r Gymraeg		4,529
Parthau Buddsoddi	Parthau Buddsoddi	11,589
Cyflogadwyedd	Y Prosiect Blaengaredd Anweithgarwch Economaidd	8,000
Cyflogadwyedd	Y Prosiect Blaengaredd Anweithgarwch Economaidd (wedi'i gario ymlaen o 2025-26)	4,800
Menter, Cysylltedd ac Ynni		24,389
Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru	GB Energy (wedi'i gario ymlaen o 2025-26)	362
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd		362
Cyfanswm		84,995

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

4.4 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £0.142m wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon, o'r portffolios canlynol:

Trosglwyddiadau Sicrwydd y Gyllideb		
BEL	Manylion	£000oedd
Trethi Datganoledig	Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol - rhagolygon trethi datganoledig	(132)
Gwariant Gweinyddu Cyffredinol	Cyfraniad at y Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2026	(10)
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu		(142)
Cyfanswm		(142)

4.5 Mae'r trosglwyddiadau hyn yn ôl i gronfeydd wrth gefn yn ymwneud â chyllid a drosglwyddir i Adrannau eraill o'r Llywodraeth drwy'r Prif Amcangyfrifon.

Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

4.6 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £184.262m wedi'u gwneud o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae hyn yn cynnwys £130m sydd wedi'i ddyrannu tuag at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a £54.262m o Drosglwyddiadau Sicrwydd y Gyllideb (gan gynnwys £17.309m o 2025-26).

4.7 Gwnaed y dyraniadau canlynol i Brif Grwpiau Gwariant:

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru		
BEL	Manylion	£000oedd
Dyraniadau Craidd y GIG	Amseroedd Aros - Hybiau Llawfeddygol a Diagnostig	25,000
Dyraniadau Craidd y GIG	Cynnal a Chadw Cyfalaf y GIG	20,000
Iechyd a Gofal		45,000
Grantiau Tai Cymdeithasol	Tai Cymdeithasol	20,000
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio		20,000
Seilwaith Addysg	Cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim mewn Ysgolion Uwchradd	10,000
Seilwaith Addysg	Cynnal a Chadw Ysgolion	40,000
Seilwaith Addysg	Gofal plant	10,000
Addysg a'r Gymraeg		60,000

Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol	Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol	5,000
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb		5,000
		130,000

Trosglwyddiadau Sicrwydd y Gyllideb		
BEL	Manylion	£000oedd
Ymchwil a Datblygu	Cynllun Gwirfoddol ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) - Rhaglen Treialon Clinigol	6,500
Iechyd a Gofal		6,500
Parthau Buddsoddi	Parthau Buddsoddi	15,133
Porthladdoedd Rhydd	Porthladdoedd Rhydd	11,020
Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol	Hwb Hydrogen Caergybi (wedi'i gario ymlaen o 2025-26)	4,800
Porthladdoedd Rhydd	Porthladdoedd Rhydd (wedi'i gario ymlaen o 2025-26)	3,446
Porthladdoedd Rhydd	Porthladdoedd Rhydd - Adfer Glannau'r Harbwr (Castell-nedd PT)	3,300
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf	Bargen Ddinesig Bae Abertawe	1,000
Menter, Cysylltedd ac Ynni		38,699
Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru	GB Energy (wedi'i gario ymlaen o 2025-26)	9,063
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd		9,063
		54,262

Effaith ar Gronfa Wrth Gefn Cymru

4.8 Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnwys tynnu cyfalaf cyffredinol o £32m i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru. Yr effaith ar Gronfa Wrth Gefn Cymru fyddai:

	Adnodd (£000oedd)	Cyfalaf Cyffredinol (£000oedd)	Trafodiadau Ariannol (£000oedd)	Cyfanswm (£000oedd)
Swm sy'n cael ei gario ymlaen dros dro 2025-26	170,325	87,572	336	258,233
Tynnu i lawr yn y Gyllideb Atodol		(32,000)		(32,000)

Adnoddau sy'n weddill	170,325	55,572	336	226,233
-----------------------	---------	--------	-----	---------

4.9 Mae'r symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru yn dal i fod yn rhai dros dros nes y bydd manylion terfynol sefyllfa alldro 2025-26 wedi'u pennu.

Tabl 4.1 – Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 2026-27 ers y Gyllideb Derfynol a'r Dyroniadau o Gronfeydd Wrth Gefn sy'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon

	£000oedd						
	Adnoddau Cyllidol	Adnoddau Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Cyfanswm
Cronfeydd adeg y Gyllideb Derfynol	40,177	-	40,177	118,026	3,065	121,091	161,268
Trosglwyddiadau a Symiau Canlyniadol ers y Gyllideb Derfynol	455,182	-	455,182	34,265	26	34,291	489,473
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	-	-	-	32,000	-	32,000	32,000
Cronfeydd Wrth Gefn Diwygiedig	495,359	-	495,359	184,291	3,091	187,382	682,741
NEWIDIADAU ERAILL I MEGs SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN							
Iechyd a Gofal	(155,715)	-	(155,715)	(51,500)	-	(51,500)	(207,215)
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	-	-	-	(20,000)	-	(20,000)	(20,000)
Addysg a'r Gymraeg	(69,529)	-	(69,529)	(60,000)	-	(60,000)	(129,529)
Menter, Cysylltedd ac Ynni	(34,389)	-	(34,389)	(38,699)	-	(38,699)	(73,088)
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	(362)	-	(362)	(9,063)	-	(9,063)	(9,425)
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	(47,000)	-	(47,000)	(5,000)	-	(5,000)	(52,000)
Diwylliant a Chwaraeon	(2,000)	-	(2,000)	-	-	-	(2,000)
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	142	-	142	-	-	-	142

NEWIDIADAU I MEGs SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN	(308,853)	-	(308,853)	(184,262)	-	(184,262)	(493,115)
NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN							
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	(3)	-	(3)	-	-	-	(3)
NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN	(3)	-	(3)	-	-	-	(3)
Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon	186,503	-	186,503	29	3,091	3,120	189,623

5. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

- 5.1** Mae cyllidebau AME y manylir arnynt yng Nghyllideb Derfynol 2026-27 wedi cynyddu fel rhan o Gyllideb Atodol Gyntaf 2026-27 ar ôl i Drysorlys EF ailddosbarthu RDEL wedi'i glustnodi (RRDEL) i RAME.
- 5.2** Mae Tabl 6.1 isod yn nodi'r ailddatganiad o'r Gyllideb Derfynol i adlewyrchu ailddyrannu RRDEL i RAME.

Mae Tabl 5.1 isod yn nodi'r cyllidebau AME presennol.

Tabl 5.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	ADNODDAU			CYFALAF		
	Cyllideb Derfynol 2026-27 wedi'i hailddagtan	Newidiad-au	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026	Cyllideb Derfynol 2026-27 wedi'i hailddatgan	Newidiad-au	Cyllideb Atodol 2026-27 Cynlluniau Newydd Hydref 2026
Iechyd a Gofal	635,637	-	635,637	620	-	620
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	1,133,713	-	1,133,713	-	-	-
Addysg a'r Gymraeg	74,085	-	74,085	1,375,354	-	1,375,354
Menter, Cysylltedd ac Ynni	350,178	-	350,178	-	-	-
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	54,638	-	54,638	(732)	-	(732)
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	1,231	-	1,231	-	-	-
Diwylliant a Chwaraeon	45,180	-	45,180	-	-	-
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	21,600	-	21,600	-	-	-
Cyfanswm y Dyranriad i Lywodraeth Cymru	2,316,262	-	2,316,262	1,375,242	-	1,375,242

6. Ailddatgan Cyllideb Derfynol 2026-27

- 6.1** Mae'r gyllideb atodol hon yn cyflwyno dau ailddatganiad o Gyllideb Derfynol 2026-27.
- 6.2** Mae'r ailddatganiad cyntaf yn ailddosbarthu cyllidebau DEL adnoddau anghyllidol wedi'u clustnodi (RRDEL) blaenorol i Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Digwyddodd yr ailddatganiad hwn cyn cyhoeddi'r portffolios Gweinidogol newydd. Mae Tabl 6.1 yn nodi crynodeb o'r symudiadau.
- 6.3** Mae ailddatganiad pellach yn ailalinio Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu'r portffolios gweinidogol diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mai 2026. Mae Tabl 6.2 yn nodi crynodeb o'r symudiadau.
- 6.4** Mae'r ailddatganiadau yn gosod y llinellau sylfaen ar gyfer y gyllideb atodol hon. Mae atodiadau manwl am yr ailddatganiadau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Tabl 6.1 – Ailddatganiad o Gyllideb Derfynol 2026-27 - Ailddyrannu RRDEL i AME

Dyraniadau'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2026-27 cyn Ailddyrannu Adnoddau Anghyllidol o DEL i AME										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM Y DYRANIAD I'R MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	12,602,651	325,509	12,928,160	625,750	-	625,750	310,672	620	311,292	13,865,202
Tai a Llywodraeth Leol	5,877,430	-	5,877,430	1,215,106	92,508	1,307,614	1,133,713	-	1,133,713	8,318,757
Addysg	1,865,169	267,594	2,132,763	401,990	(1,968)	400,022	(207,936)	1,375,354	1,167,418	3,700,203
Trafnidiaeth	706,194	226,691	932,885	561,373	-	561,373	83,767	-	83,767	1,578,025
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	596,535	20,938	617,473	322,157	10,200	332,357	33,700	(732)	32,968	982,798
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	496,986	32,664	529,650	316,149	27,484	343,633	66,525	-	66,525	939,808
Cyfiawnder Cymdeithasol	144,194	461	144,655	18,248	457	18,705	226	-	226	163,586
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	453,600	18,538	472,138	21,296	-	21,296	3,200	-	3,200	496,634
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	22,742,759	892,395	23,635,154	3,482,069	128,681	3,610,750	1,423,867	1,375,242	2,799,109	30,045,013

Dyraniadau'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2026-27 ar ôl Ailddyrannu Adnoddau Anghyllidol o DEL i AME

£000oedd

Adnoddau

Cyfalaf

AME

CYFANSWM Y
DYRANIAD I'R
MEG

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	CYFANSWM Y DYRANIAD I'R MEG
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	12,602,651	-	12,602,651	625,750	-	625,750	636,181	620	636,801	13,865,202
Tai a Llywodraeth Leol	5,877,430	-	5,877,430	1,215,106	92,508	1,307,614	1,133,713	-	1,133,713	8,318,757
Addysg	1,865,169	-	1,865,169	401,990	(1,968)	400,022	59,658	1,375,354	1,435,012	3,700,203
Trafnidiaeth	706,194	-	706,194	561,373	-	561,373	310,458	-	310,458	1,578,025
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	596,535	-	596,535	322,157	10,200	332,357	54,638	(732)	53,906	982,798
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	496,986	-	496,986	316,149	27,484	343,633	99,189	-	99,189	939,808
Cyfiawnder Cymdeithasol	144,194	-	144,194	18,248	457	18,705	687	-	687	163,586
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	453,600	-	453,600	21,296	-	21,296	21,738	-	21,738	496,634
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	22,742,759	-	22,742,759	3,482,069	128,681	3,610,750	2,316,262	1,375,242	3,691,504	30,045,013

SYMUDIADAU										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM Y DYRANIAD I'R MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	-	(325,509)	(325,509)	-	-	-	325,509	-	325,509	-
Tai a Llywodraeth Leol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Addysg	-	(267,594)	(267,594)	-	-	-	267,594	-	267,594	-
Trafnidiaeth	-	(226,691)	(226,691)	-	-	-	226,691	-	226,691	-
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	-	(20,938)	(20,938)	-	-	-	20,938	-	20,938	-
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	-	(32,664)	(32,664)	-	-	-	32,664	-	32,664	-
Cyfiawnder Cymdeithasol	-	(461)	(461)	-	-	-	461	-	461	-
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-	(18,538)	(18,538)	-	-	-	18,538	-	18,538	-
SYMUDIADAU NET	-	(892,395)	(892,395)	-	-	-	892,395	-	892,395	-

Tabl 6.2 – Ailddatganiad o Gyllideb Derfynol 2026-27 - Portffolios Gweinidogol Newydd

Dyraniadau'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2026-27 ar ôl y Newidiadau i'r Cyfrifoldebau Gweinidogol										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM Y DYRANIAD I'R MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gofal	12,293,491	-	12,293,491	625,750	-	625,750	635,637	620	636,257	13,555,498
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	5,885,125	-	5,885,125	1,215,106	92,508	1,307,614	1,133,713	0	1,133,713	8,326,452
Addysg a'r Gymraeg	2,104,581	-	2,104,581	407,097	(1,968)	405,129	74,085	1,375,354	1,449,439	3,959,149
Menter, Cysylltedd ac Ynni	867,178	-	867,178	839,144	28,484	867,628	350,178	0	350,178	2,084,984
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	587,729	-	587,729	293,173	10,200	303,373	54,638	(732)	53,906	945,008
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	453,890	-	453,890	18,198	457	18,655	1,231	0	1,231	473,776
Diwylliant a Chwaraeon	134,404	-	134,404	65,412	(1,000)	64,412	45,180	0	45,180	243,996
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	416,361	-	416,361	18,189	-	18,189	21,600	0	21,600	456,150
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	22,742,759	-	22,742,759	3,482,069	128,681	3,610,750	2,316,262	1,375,242	3,691,504	30,045,013

SYMUDIADAU										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM Y DYRANIAD I'R MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gofal	(309,160)	-	(309,160)	-	-	-	(544)	-	(544)	(309,704)
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	7,695	-	7,695	-	-	-	-	-	-	7,695
Addysg a'r Gymraeg	239,412	-	239,412	5,107	-	5,107	14,427	-	14,427	258,946
Menter, Cysylltedd ac Ynni	370,192	-	370,192	522,995	1,000	523,995	250,989	-	250,989	1,145,176
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	(8,806)	-	(8,806)	(28,984)	-	(28,984)	-	-	-	(37,790)
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	309,696	-	309,696	(50)	-	(50)	544	-	544	310,190
Diwylliant a Chwaraeon	134,404	-	134,404	65,412	(1,000)	64,412	45,180	-	45,180	243,996
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	(37,239)	-	(37,239)	(3,107)	-	(3,107)	(138)	-	(138)	(40,484)
Trafnidiaeth	(706,194)	-	(706,194)	(561,373)	-	(561,373)	(310,458)	-	(310,458)	(1,578,025)
SYMUDIADAU NET	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy'n nodi'r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2026-27 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys EF ac yn cyd-fynd â'r Tablau BEL. Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys eitemau nad ydynt yn dod o dan yr 'Adnoddau y Gofynnir Amdanynt' gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

CYLLIDEB ATODOL 2026-27									
£000oedd									
	Iechyd a Gofal	Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	Addysg a'r Gymraeg	Menter, Cysylltedd ac Ynni	Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	Cyfiawn-der Cymdeith-asol a Chydraddoldeb	Diwylliant a Chwaraeon	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	CYFANSWM
Adnoddau	12,449,206	5,885,125	2,174,110	901,567	588,091	500,890	136,404	416,219	23,051,612
Cyfalaf	677,250	1,327,614	465,129	906,327	312,436	23,655	64,412	18,189	3,795,012
AME Adnoddau	635,637	1,133,713	74,085	350,178	54,638	1,231	45,180	21,600	2,316,262
AME Cyfalaf	620	-	1,375,354	-	(732)	-	-	-	1,375,242
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR	13,762,713	8,346,452	4,088,678	2,158,072	954,433	525,776	245,996	456,008	30,538,128
Cysoni ag Adnoddau									
Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	(39)		(437)		(41,968)		(38,566)		(81,010)
Benthyca â Chymorth		(88,800)							(88,800)
Costau Casglu Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol	(906)								(906)
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu)		(1,106,172)							(1,106,172)
Taliadau Llog ar Fenthyciadau								(24,310)	(24,310)
Y Fenter Cyllid Preifat (PFI)				(17,468)					(17,468)
ADNODDAU Y GOFYNNIR AMDANYNT	13,761,768	7,151,480	4,088,241	2,140,604	912,465	525,776	207,430	431,698	29,219,462

Atodiad 2 – Geirfa

Cam gweithredu	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant (SPA), dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.
Cwmpasoedd	Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Senedd Cymru i wario adnoddau arnynt. Caiff disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau eu cynnwys yn y cynigion ar gyfer y Cyllidebau Blyneddol ac Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEGs).
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EF. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthygiadau i fyfyrwyr. O 2026-27 ymlaen, ailddosbarthwyd RDEL wedi'i glustnodi ar gyfer dibrisiant ac amhariadau i AME.
Cynnig y Gyllideb	Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.
Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru
Cyfalaf	Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF mewn Adolygiadau o Wariant.
Dibrisiant	Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod.

Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Mae'r gwariant a godir yn uniongyrchol yn cynnwys cyflogau'r Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.
Trafodiadau Ariannol	Dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir defnyddio trafodiadau ariannol. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys.
DEL Adnoddau Cyllidol (y cyfeirir ato weithiau fel refeniw)	Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol y llywodraeth. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau.
Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir 8 MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gofal; Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio; Addysg a'r Gymraeg; Diwylliant a Chwaraeon; Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd; Menter, Cysylltedd ac Ynni; Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
DEL Adnoddau Anghyllidol (cyfeirir ato weithiau fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')	Yn effeithiol o 2026-27 ymlaen, mae Trysorlys EF wedi ailddosbarthu'r DEL adnoddau anghyllidol wedi'i glustnodi (RRDEL) i AME Adnoddau.
Derbyniadau	Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.
Cyllidebu adnoddau	Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys codi swm am ddibrisiant, sef ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.

Adolygiad o Wariant	O bryd i'w gilydd mae Trysorlys EF yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y llywodraethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys EF yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.
Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.